# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

DYDDIAD: 13 Medi 2000

LLEOLIAD: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

TEITL: Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol

**Cyflwyniad**

1. Ym mis Gorffennaf 1999, cynhyrchodd Tasglu Ewropeaidd Cymru Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ddrafft, ac roedd dogfen Gwellcymru.com a gyhoeddwyd ym mis Mai yn rhagflaenu cyhoeddi Strategaeth lawn. Mae'r papur hwn, felly, yn darparu amlinelliad o fframwaith ar gyfer y Strategaeth ac amserlen arfaethedig ar gyfer ei gynhyrchu, sydd yn Atodiad A a B yn eu trefn.

**Trafodaeth**

2. Mae'r cynnig yn seiliedig ar nifer o ystyriaethau allweddol gan gynnwys:

- dulliau gwneud polisi cyfunol a chynhwysol sydd yn rhoi ystyriaeth lawn i waith perthnasol arall, yn benodol adolygiad o gymorth busnes y Pwyllgor Datblygu Economaidd ac adolygiad pum mlynedd Awdurdod Datblygu Cymru;

- unioni'r Cylch Cyllidebol a'r gwaith a wneir ar y Strategaeth ei hun. Y nod yw cynhyrchu fframwaith hydrin o bolisïau a rhagleni Cymreig eu naws ar draws y Cynulliad (nid yn yr Adran Datblygu Economaidd yn unig) sy'n nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu, ac yn cysylltu amcanion a lleoliad adnoddau, gyda phwyslais penodol ar Amcan 1;

- at ddibenion meincnodi, dadansoddiad economaidd cryf a thargedau diwygiedig sydd yn gysylltiedig â Gwell Cymru; a

- pherchnogaeth ledled Cymru gan gynnwys busnes, llywodraeth leol a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae angen ymgynghoriad cyhoeddus eang i wneud hyn.

3. Cynlluniwyd yr amserlen yn Atodiad B i fod yn gyson â'r llwybr critigol ar gyfer prosesau

allweddol eraill. Mae'n caniatáu digon o amser ar gyfer y gwahanol gamau yn y broses ymgynghori cyhoeddus, ond ar yr un pryd yn cynnig ffordd o gyflawni'r nod cyn gynted ag y bo modd gyda phwyslais penodol ar Gylchoedd Cyllideb dilynol a'r rhaglen Amcan 1.

**Casgliad**

4. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynigion hyn ac i gynnig sylwadau. Bwriedir llunio dadansoddiad economaidd drafft o'r Strategaeth i'w drafod yn y Pwyllgor ar 18 Hydref 2000.

5. Anfonwyd y papur hwn at y pwyllgorau pwnc eraill er gwybodaeth hefyd.

Yr Is-Adran Polisi Economaidd

Medi 2000

**ATODIAD A**

**STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD GENEDLAETHOL: FFRAMWAITH**

**1. Rhagair gan y Prif Ysgrifennydd**

**2. Cyflwyniad (Cyd-destun) –** byr

MAE CYMRU'N TANGYFLAWNI: SUT Y GALLWN DDATRYS HYN?

- Dogfennau Rhaglennu Sengl y Cronfeydd Strwythurol
- Setliad yr Adolygiad o Wariant a rhagolwg ar y Cyllidebau
- Economi Ryngwladol ac Anghysondebau Rhanbarthol yn y DU/ Ewrop
- Y dimensiwn Ewropeaidd
- Cyfle cyfartal/ gwerthfawrogi amrywiaeth
- Adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o gymorth busnes.

**THEMÂU MAWR** (ymgeiswyr posibl):

- hybu E-Ddiwylliant a’r Economi yn seiliedig ar wybodaeth a chryfhau’r sylfaen dechnoleg;

- goresgyn yr etifeddiaeth;

- sgiliau’r gweithlu;

- arloesi yng Nghymru;

- datblygu cynaliadwy (ymagwedd yn seiliedig yn y gymuned); a’r

- cysylltiad rhwng Gwell Iechyd a gweithgarwch economaidd;

**3. Economi Cymru**

- beth yw’r sefyllfa ar hyn o bryd;
- beth yw’r nod;
- sut byddwn yn cyflawni’r nod – cyswllt â Gwell Cymru
- **TARGEDAU DIWYGIEDIG**

**4. Strategaeth Cyflogaeth/ Sgiliau**

Rhoi "Cynllun Gweithredu Sgiliau" ar waith, a symleiddio’r cynlluniau sy’n bodoli ar hyn o bryd i ganolbwyntio ar sgiliau i bob oed a rhaglenni hyfforddiant paratoadol, a thrwy hynny:

- galluogi pobl i gyflawni eu potensial a chynyddu’r gallu cynhyrchiol economaidd;

- cynyddu sgiliau ar gyfer swyddi yn y dyfodol a chreu mathau o swyddi sy’n symud tua’r dyfodol, a fydd yn galw am y sgiliau hynny, ac felly yn creu gweithlu mwy cynhyrchiol; a

- chreu cyfleoedd cyflogi cynaliadwy o ansawdd da.

CAHC ac eraill fydd yn gweithredu’r rhain.

**5. Yr Economi Wybodaeth**

- Strategaeth yr Oes Wybodaeth ac economi'n seiliedig ar wybodaeth
- Hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer E-Fusnes
- Datblygu isadeiledd TGCh – ee band llydan
- rôl BT, NTL etc, rôl y Prifysgolion ac eraill
- goblygiadau ar gyfer y rhwydwaith cefnogi busnesau a chysylltiadau â mentergarwch
- mentrau sectoraidd
- E-Lywodraeth

**6. Arloesi a Mentergarwch**

- Cefnogi datblygiad busnes ac entrepreneuriaid (ee rhoi'r Cynllun Gweithredu Mentergarwch ar waith)
- Foresight Cymru
- Clystyrau Rhanbarthol/ blaenoriaethau sectoraidd (ee opto-electroneg a diagnosteg)
- Sgiliau rheoli
- Ymchwil a Datblygu ym Mhrifysgolion Cymru
- Cyfleoedd i drosglwyddo Technoleg
- Sylfaen gwyddoniaeth yng Nghymru/ cysylltiadau â OST
- Cyllid ar gyfer arloesi (Cyllid Cymru, y sector preifat)

**7. Cymunedau/ Adfywio**

- Gwell economi = Gwell Iechyd (ac i'r gwrthwyneb)
- Iechyd yn y gweithle
- Rhoi Cymunedau'n Gyntaf
- Y farchnad dai
- yr economi gymdeithasol
- Cymunedau gwledig (argyfwng y byd amaethyddiaeth)
- Strategaeth drafnidiaeth (pegynau twf)
- fframwaith cynllunio gofodol

**8. Llywodraeth Well**

- symleiddio cynlluniau grant
- gwerthusiad cynhwysfawr o'r hyn sydd gennym
- atal "cynlluniau gwerth ceiniog"; hybu rhaglenni gwell, llai o ran nifer, sy'n cynyddu effaith gwariant
- cefnogaeth wedi ei thargedu'n well – (ee Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn canolbwyntio ar swyddi cynaliadwy)

- Y Cynulliad a Byd Busnes
- gwell rheoleiddio
- pryniant cyhoeddus – cymorth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig eu maint yng Nghymru (enghraifft US SBA)

**9. Datblygu Cynaliadwy**

- Cynllun y Cynulliad
- Cynllun Awdurdod Datblygu Cymru
- Hybu arferion da mewn cwmnïau yng Nghymru
- Cronfa newydd ar gyfer yr Amgylchedd?
- Polisi Ynni

**10. Mentrau Sectoraidd (yn gysylltiedig â Chronfeydd Strwythurol)**

- Allforion: Masnach Cymru Rhyngwladol
- Twristiaeth
- Cyllid
- Bwyd-amaeth
- Safleoedd a Lleoliadau

**ATODIAD B**

**STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD GENEDLAETHOL: AMSERLEN ARFAETHEDIG**

| | |
|---|---|
| 13 Medi 2000 | papur er gwybodaeth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. |
| Medi 2000 | cyfarfod cyntaf y grp ymgynghorol anffurfiol [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Byd Busnes (Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyd-Ffederasiwn Diwydiant Prydain) Cyngres yr Undebau Llafur a Phrifysgolion Cymru*] |
| Hydref 2000 | ail gyfarfod y grp ymgynghorol anffurfiol |

| | |
|---|---|
| 18 Hydref 2000 | Papur llawn i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd, ar ddadansoddiad economaidd, a chopïau at y pwyllgorau eraill (gyda chais am sylwadau erbyn 10 Tachwedd) |
| 19 Hydref 2000 | Papur EDC at y Pwyllgorau Rhanbarth a’r Fforymau Economaidd (gyda chais am sylwadau erbyn 10 Tachwedd) |
| wythnos 6 Tachwedd | trydydd cyfarfod y grp ymgynghorol anffurfiol |
| 23 Tachwedd 2000 | Cyflwyniad i’r Bartneriaeth Fusnes |
| 29 Tachwedd 2000 | drafft ymgynghorol cymeradwy i EDC a chopïau at y pwyllgorau eraill |
| Rhagfyr 2000 | drafft ymgynghorol wedi ei gyhoeddi/ ar y wefan (yn gofyn am sylwadau erbyn diwedd Ionawr 2001). Digwyddiad(au) i’w trefnu i uno themâu trawsbynciol |
| 31 Ionawr 2000 | diwedd y cyfnod ymgynghori |
| wythnos 5 Chwefror | pedwerydd cyfarfod y grp ymgynghorol anffurfiol (y cyfarfod olaf) |
| canol Chwefror 2001 | Dadl yn y Cyfarfod Llawn |
| 21 neu 28 Chwefror 2000 | drafft terfynol i’r EDC gyda chopïau at y pwyllgorau eraill |
| wythnos gyntaf Ebrill 2001 | Lansio’r Strategaeth |

* gallai aelodaeth y grp hwn newid i adlewyrchu grwpiau ymgynghori ehangach, ee ar gyfle cyfartal, a sefydlir